# Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020

2020 dsc 2

Nodiadau Esboniadol

# Wild Animals and Circuses (Wales) Act 2020

2020 asc 2

Explanatory Notes

**£6.90**

# DEDDF ANIFEILIAID GWYLLT A SYRCASAU (CYMRU) 2020

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) a basiwyd gan Senedd Cymru ar 15 Gorffennaf 2020 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 7 Medi 2020. Fe'u lluniwyd gan Adran Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

### AILENWI CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

2. Mae Rhan 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru. Roedd y newid enw yn cael effaith ar 6 Mai 2020, cyn pasio Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru), ond ar ôl iddi gael ei chyflwyno.

3. Gan fod y Ddeddf wedi ei chyflwyno cyn i'r enw newid, mae'r Ddeddf ei hun (ar wahân i'r geiriau deddfu) yn cyfeirio at "Cynulliad Cenedlaethol Cymru". Mae'r cyfeiriadau hynny bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r geiriau deddfu yn cyfeirio at "Senedd Cymru" gan mai'r Senedd a basiodd y Ddeddf.

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Adran 1 – Trosedd i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol

4. Mae adran 1 yn ei gwneud yn drosedd i weithredwr syrcas deithiol ddefnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol, neu beri neu ganiatáu i berson arall wneud hynny. Mae'r drosedd yn drosedd ddiannod ac felly gellir ei rhoi ar brawf yn Llys yr Ynadon. Os ceir gweithredwr yn euog o'r drosedd, caiff y Llys osod dirwy ddiderfyn.

5. Mae anifail gwyllt yn cael ei "ddefnyddio" os yw'r anifail yn perfformio neu'n cael ei arddangos.

6. Mae anifail gwyllt yn "perfformio" os yw, er enghraifft, yn gwneud triciau neu symudiadau ar gyfer cynulleidfa.

7. Mae anifail gwyllt yn cael ei "arddangos" os yw'n cael ei ddangos i'r cyhoedd, hyd yn oed os yw'n cael ei ddangos y tu allan i brif arena'r syrcas. Er enghraifft, byddai gosod yr anifail gwyllt yn fwriadol fel y gall y cyhoedd ei weld mewn caeau cyfagos i'r syrcas yn cyfrif fel "arddangos" yr anifail. Byddai "arddangos" hefyd yn cynnwys dangos yr anifail mewn ffordd y bwriedir iddi hyrwyddo'r syrcas deithiol, er enghraifft, wrth ymyl poster y syrcas. Ni fydd gweithredwyr syrcasau teithiol yn

# WILD ANIMALS AND CIRCUSES (WALES) ACT 2020

---

## EXPLANATORY NOTES

### INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Wild Animals and Circuses (Wales) Act which was passed by Senedd Cymru on 15 July 2020 and received Royal Assent on 7 September 2020. They have been prepared by the Department for Economy, Skills and Natural Resources of the Welsh Government to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.

### RENAMING THE NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

2. Part 2 of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 renames the National Assembly for Wales as Senedd Cymru. The name change took effect on 6 May 2020, before the Wild Animals and Circuses (Wales) Act was passed, but after it had been introduced.

3. As the Act was introduced before the name change, the Act itself (apart from the words of enactment) refers to the "National Assembly for Wales". Those references now have effect as references to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006. The words of enactment refer to "Senedd Cymru" as it was the Senedd that passed the Act.

### COMMENTARY ON SECTIONS

#### Section 1 – Offence to use wild animals in travelling circuses

4. Section 1 makes it an offence for an operator of a travelling circus to use, or cause or permit another person to use, a wild animal in a travelling circus. The offence is a summary offence and so is triable in the Magistrates' Court. If an operator is found guilty of the offence, the Court may impose an unlimited fine.

5. A wild animal is "used" if the animal performs or is exhibited.

6. A wild animal "performs" if, for example, it does tricks or manoeuvres for an audience.

7. A wild animal is "exhibited" if it is on display to the public, even if it is on display outside the main circus arena. For example, deliberately positioning the wild animal so that it can be viewed by the public in fields next to the circus would be "exhibiting" the animal. "Exhibiting" would also include displaying the animal in a way intended to promote the travelling circus, for example next to a circus poster.

cyflawni trosedd, fodd bynnag, os bydd rhywun yn anfwriadol yn gweld anifail gwyllt sydd mewn lloc yn yr awyr agored (ar yr amod nad yw'r anifail gwyllt wedi ei roi yno'n fwriadol i gael ei weld).

8. Bydd trosedd wedi ei chyflawni pa un a oes angen talu i weld yr anifail gwyllt yn perfformio neu'n cael ei ddangos ai peidio, neu pa un a oes tâl yn cael ei dderbyn ar gyfer hynny ai peidio.

9. Nid oes rhaid i anifail gwyllt fod wedi ei gludo gyda'r syrcas deithiol na bod yn eiddo i'r syrcas deithiol er mwyn i drosedd fod wedi ei chyflawni.

10. Er gwaethaf adran 1, caiff syrcasau teithiol gadw anifeiliaid gwyllt (ar yr amod nad ydynt yn eu "defnyddio"). Gweler adran 8 o'r Nodiadau Esboniadol hyn i weld newidiadau i Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 ynghylch y trwyddedau y gall fod yn ofynnol i syrcasau eu cael er mwyn cadw anifeiliaid gwyllt.

11. Nid yw'r Ddeddf yn effeithio ar ddefnyddio anifeiliaid wedi eu domestigeiddio mewn syrcasau teithiol, nac ychwaith yn atal anifeiliaid gwyllt rhag cael eu defnyddio ar gyfer adloniant mewn lleoliadau heblaw syrcasau teithiol.

**Adran 2 – Ystyr "gweithredwr"**

12. Gweithredwr syrcas deithiol yn unig sy'n gallu cyflawni'r drosedd yn adran 1.

13. Y "gweithredwr" yw perchennog y syrcas deithiol neu berson arall nad yw'n berchen ar y syrcas deithiol ond sy'n bennaf gyfrifol am ei gweithrediad. Os nad yw'r naill na'r llall yn bresennol yn y Deyrnas Unedig, y person yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol yw'r gweithredwr.

14. Gweler hefyd adran 6 o'r Nodiadau Esboniadol hyn am wybodaeth am unigolion a all fod yn atebol pan fo'r drosedd yn cael ei chyflawni gan gwmni etc.

**Adran 3 – Ystyr "anifail gwyllt"**

15. Mae "anifail gwyllt" yn anifail o fath nad yw wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd Prydeinig. Mae anifeiliaid yr ystyrir eu bod wedi eu domestigeiddio yn gyffredin mewn man ac eithrio yn yr Ynysoedd Prydeinig yn cael eu hystyried yn "anifeiliaid gwyllt" o dan y Ddeddf os nad ydynt wedi eu domestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd Prydeinig.

16. Mae'n bosibl y bydd ansicrwydd neu wahaniaeth barn ynghylch a yw anifail yn wyllt ai peidio. Mae adran 3(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu mathau o anifeiliaid sydd i'w hystyried yn wyllt, neu nad ydynt i'w hystyried yn wyllt, at ddibenion y Ddeddf. Nid yw'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru restru mewn rheoliadau bob anifail y maent yn ystyried ei fod yn "anifail gwyllt", neu nad ydynt yn ystyried ei fod yn "anifail gwyllt", at ddibenion y Ddeddf.

Operators of travelling circuses will not, however, commit an offence if anybody inadvertently viewed a wild animal which is in an outdoor enclosure (provided the wild animal was not deliberately placed there to be viewed).

8. An offence is committed whether or not payment is required or received to view the wild animal performing or being exhibited.

9. A wild animal does not need to have been transported with the travelling circus for the offence to be committed. Neither does the animal need to be owned by the travelling circus for the offence to be committed.

10. Despite section 1, travelling circuses may keep wild animals (provided they are not "used" by the travelling circus). See section 8 of these Explanatory Notes for changes to the Dangerous Wild Animals Act 1976 and Zoo Licensing Act 1981 relating to the licenses circuses may require to keep wild animals.

11. The Act does not affect the use of domesticated animals in travelling circuses, nor does it prevent wild animals being used for entertainment in settings other than travelling circuses.

**Section 2 - Meaning of "operator"**

12. Only the operator of a travelling circus can commit the offence in section 1.

13. The "operator" is the owner of the travelling circus or another person who does not own the travelling circus but has overall responsibility for its operation. If neither of those persons is present in the United Kingdom, the operator is the person in the United Kingdom responsible for the operation of the travelling circus.

14. See also section 6 of these Explanatory Notes for information about individuals who may be liable where the offence is committed by a company etc.

**Section 3 - Meaning of "wild animal"**

15. A "wild animal" is an animal of a kind which is not commonly domesticated in the British Islands. Animals considered commonly domesticated in a place other than the British Islands would be considered "wild animals" under the Act if they are not commonly domesticated in the British Islands.

16. There may be uncertainty or conflicting views about whether an animal is wild or not. Section 3(2) allows Welsh Ministers to make regulations to specify kinds of animals that are, or are not, to be regarded as wild for the purposes of the Act. This power does not require Welsh Ministers to list in regulations all the animals they consider to be, or do not consider to be, "wild animals" for the purpose of the Act.

17. Mae i "anifail" yr ystyr a roddir i "animal" yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006 (gweler adran 1), ac mae'n golygu anifeiliaid asgwrn cefn. Ond mae adran 1(3) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid y diffiniad hwnnw drwy reoliadau (a allai gynnwys estyn y diffiniad o "anifail" i gynnwys anifeiliaid di-asgwrn-cefn).

**Adran 4 – Ystyr "syrcas deithiol"**

18. Ystyr "syrcas deithiol" yw syrcas sy'n teithio o un man i fan arall at ddiben darparu adloniant. Ystyrir bod syrcas yn "syrcas deithiol" er bod cyfnodau pan nad yw'n teithio; nid yw syrcas deithiol yn peidio â bod yn syrcas deithiol yn ystod seibiant o'r teithio neu yn ystod y tymor pan fydd ar gau.

19. Nid yw "syrcas deithiol", fodd bynnag, yn cynnwys syrcas sydd fel arfer yn sefydlog ac sy'n teithio er mwyn adleoli i leoliad sefydlog arall.

20. Mae'n bosibl y bydd ansicrwydd neu wahaniaeth barn ynghylch a yw math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant yn syrcas deithiol ai peidio. Mae adran 4(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu math o ymgymeriad, perfformiad, adloniant neu rywbeth tebyg sydd i'w ystyried yn syrcas deithiol, ac nad yw i'w ystyried yn syrcas deithiol, at ddibenion y Ddeddf. Nid yw'r pŵer hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru restru, mewn rheoliadau, bob math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant sydd i'w ystyried yn syrcas deithiol at ddiben y Ddeddf, neu nad yw i'w ystyried yn syrcas deithiol at ddiben y Ddeddf.

**Adran 5 – Pwerau gorfodi**

21. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch pwerau gorfodi.

**Adran 6 a 7 – Troseddau gan gyrff corfforedig etc.**

22. Mae adran 6 yn darparu y gall unigolion penodol fod yn atebol o ran cyfraith trosedd am y drosedd yn adran 1 pan gyflawnir y drosedd gan gyrff penodol. Golyga hyn, er enghraifft, y gallai cyfarwyddwr cwmni fod yn atebol am y drosedd os cyflawnir hi gan y cwmni y mae'r person hwnnw yn gyfarwyddwr arno.

23. Mae'r adran hon yn gymwys i'r drosedd yn adran 1 yn unig, ac nid i'r troseddau yn yr Atodlen.

24. Mae adran 7 yn nodi sut y mae achos i'w ddwyn yn erbyn partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig pan honnir ei bod wedi cyflawni trosedd o dan adran 1.

**Adran 8 – Diwygiadau sy'n ymwneud â thrwyddedu syrcasau**

25. Er bod y Ddeddf hon yn gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, caiff syrcasau barhau i gadw anifeiliaid gwyllt. Er mwyn cadw anifeiliaid gwyllt, mae'r diwygiadau a wneir gan yr adran hon yn golygu y gall fod yn ofynnol i'r syrcasau fod â thrwydded sw neu drwydded anifeiliaid gwyllt peryglus.

26. O dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 ("Deddf 1976"), mae angen trwydded i gadw "anifail gwyllt peryglus" (fel y diffinnir "dangerous wild animal" yn adran 7 o'r Ddeddf honno), yn ddarostyngedig i rai esemptiadau (a nodir yn adran 5 o'r Ddeddf honno). Mae Deddf Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau 2019 yn

17. "Animal" means vertebrate animals (see section 1 of the Animal Welfare Act 2006). But section 1(3) of the Animal Welfare Act 2006 allows Welsh Ministers by regulations to change that definition (which could include extending the definition of "animal" to include invertebrates).

**Section 4 - Meaning of "travelling circus"**

18. A "travelling circus" means a circus which travels from one place to another for the purpose of providing entertainment. A circus is considered a "travelling circus" despite there being periods when it does not travel; a travelling circus does not stop being a travelling circus during a break from the touring or closed season.

19. But a "travelling circus" does not include a normally static circus which travels to relocate to a new fixed base.

20. There may be uncertainty or conflicting views about whether a type of undertaking, act or entertainment is or is not a travelling circus. Section 4(3) allows Welsh Ministers to make regulations to specify a type of undertaking, act, entertainment or similar that is, and is not, to be regarded as a travelling circus for the purposes of the Act. This power does not require Welsh Ministers to list, in regulations, all types of undertakings, acts or entertainment which are to be regarded, or are not to be regarded, as a travelling circus for the purpose of the Act.

**Section 5 – Powers of enforcement**

21. This section introduces the Schedule, which makes provision about powers of enforcement.

**Section 6 and 7 – Offences by bodies corporate etc.**

22. Section 6 provides that certain individuals can be held criminally liable for the offence in section 1 where the offence is committed by certain bodies. This means, for example, that a director of a company could be criminally liable for the offence where the company that the person is a director of committed the offence.

23. This section applies to the offence in section 1 only and not to the offences in the Schedule.

24. Section 7 sets out how proceedings are to be brought against a partnership or an unincorporated association where they are alleged to have committed an offence under section 1.

**Section 8 – Amendments relating to licensing of circuses**

25. Although the use of wild animals in travelling circuses is prohibited by this Act, circuses may still keep wild animals. The amendments made by this section mean that in order to keep wild animals, circuses may be required to have a zoo licence or a dangerous wild animal licence.

26. Under the Dangerous Wild Animals Act 1976 ("the 1976 Act"), a licence is required to keep a "dangerous wild animal" (defined in section 7 of that Act), subject to some exemptions (set out in section 5 of that Act). The Wild Animals in Circuses Act 2019

diwygio adran 5 o Ddeddf 1976 fel nad yw syrcasau yn Lloegr nac yn yr Alban wedi eu hesemptio mwyach rhag y gofyniad hwnnw.

27. Mae adran 8(1) yn diwygio adran 5 o Ddeddf 1976 ymhellach fel nad yw syrcasau yng Nghymru ychwaith wedi eu hesemptio mwyach rhag y gofyniad hwnnw. Mae hyn yn golygu y bydd angen trwydded o dan Ddeddf 1976 ar unrhyw syrcas yng Nghymru (boed yn deithiol neu'n sefydlog) sy'n cadw anifail gwyllt peryglus, oni bai bod y syrcas yn dod o dan ddarpariaethau Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 (gweler adran 5(1) o Ddeddf 1976).

28. O dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 ("Deddf 1981"), mae angen trwydded i weithredu sw ("zoo"). Mae adran 8(2) yn diwygio adran 1(2) o Ddeddf 1981 fel bod syrcasau yng Nghymru yn dod o fewn y diffiniad o sw. Mae hyn yn golygu y gallai fod yn ofynnol i syrcas yng Nghymru gael trwydded sw os yw Deddf 1981 yn gymwys iddi (ceir rhai sŵau nad yw Deddf 1981 yn gymwys iddynt. Gweler, er enghraifft, adran 14 o Ddeddf 1981 (hepgoriad i sŵau penodol)). Os nad yw Deddf 1981 yn gymwys, yna gall Deddf 1976 fod yn gymwys ac efallai y bydd angen trwydded anifeiliaid gwyllt peryglus ar y syrcas.

### Adran 9 – Pŵer yr Uchel Lys i ddatgan bod gweithred neu anweithred y Goron yn anghyfreithlon

29. Mae'r Ddeddf yn rhwymo'r Goron ac mae'n gymwys i bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron fel y mae'n gymwys i bersonau eraill, ond nid yw'n gwneud y Goron ei hun yn atebol o ran cyfraith trosedd (gweler adran 28 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019). Mae adran 9, fodd bynnag, yn darparu y caiff yr Uchel Lys ddatgan bod gweithred neu anweithred y Goron yn anghyfreithlon.

### Adran 10 – Tir y Goron: pwerau mynediad

30. Gyda chydsyniad "awdurdod priodol" yn unig y caniateir arfer pŵer mynediad mewn perthynas â thir y Goron. Diffinnir "tir y Goron" yn adran 10(2)(a). Mae'r hyn sy'n cyfrif fel yr "awdurdod priodol", a chan bwy y mae angen cael caniatâd, yn dibynnu ar berchnogaeth neu reolaeth y tir y Goron o dan sylw, ac fe'i nodir yn adran 10(2)(b). Pan fo unrhyw ansicrwydd ynghylch pa awdurdod a ddylai fod yn rhoi cydsyniad, y Trysorlys sy'n penderfynu.

### Adran 11 – Rheoliadau

31. Mae'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i'w harfer drwy offeryn statudol ac yn destun y weithdrefn gadarnhaol.

### Adran 12 – Dod i rym

32. Daw'r Ddeddf i rym ar 1 Rhagfyr 2020.

### Adran 13 – Enw byr

33. Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020.

### Yr Atodlen – Pwerau gorfodi

34. Mae'r Atodlen yn rhoi pwerau i arolygwyr orfodi'r drosedd yn adran 1, yn nodi rhychwant y pwerau hynny ac yn creu troseddau pan fo person yn rhwystro'r pwerau hynny rhag cael eu harfer.

amends section 5 of the 1976 Act so that circuses in England and Scotland are no longer exempt from that requirement.

27. Section 8(1) further amends section 5 of the 1976 Act so that circuses in Wales are also no longer exempt from that requirement. This means that any circus (travelling or static) in Wales which keeps a dangerous wild animal will require a licence under the 1976 Act, unless the circus is caught by the provisions of the Zoo Licensing Act 1981 (see section 5(1) of the 1976 Act).

28. Under the Zoo Licensing Act 1981 ("the 1981 Act"), a licence is required to operate a "zoo". Section 8(2) amends section 1(2) of the 1981 Act so that circuses in Wales fall within the definition of "zoo". This means that a circus in Wales could be required to obtain a zoo licence if the 1981 Act applies to it (there are some zoos to which the 1981 Act does not apply. See, for example, section 14 of the 1981 Act (dispensation for particular zoos)). If the 1981 Act does not apply, then the 1976 Act may apply and a circus may need a dangerous wild animals licence.

**Section 9 – Power of High Court to declare unlawful an act or omission of the Crown**

29. The Act binds the Crown and applies to persons in service of the Crown as it applies to other persons, but it does not make the Crown itself criminally liable (see section 28 of the Legislation (Wales) Act 2019). Section 9, however, provides that the High Court may declare unlawful an act or omission of the Crown.

**Section 10 – Crown land: powers of entry**

30. The power of entry is only exercisable in relation to Crown land with the consent of an "appropriate authority". "Crown land" is defined in section 10(2)(a). Who constitutes the "appropriate authority", and from whom consent is required, depends on the ownership or management of the Crown land in question, and is set out in section 10(2)(b). Where there is any uncertainty as to which authority should be giving consent, the Treasury decides.

**Section 11 - Regulations**

31. The powers to make subordinate legislation are to be exercised by statutory instrument and are subject to the affirmative procedure.

**Section 12 – Coming into force**

32. The Act comes into force on 1 December 2020.

**Section 13 – Short title**

33. The short title of this Act is the Wild Animals and Circuses (Wales) Act 2020.

**Schedule – Powers of enforcement**

34. The Schedule confers powers on inspectors to enforce the offence in section 1, sets out the extent of those powers and creates offences where a person hampers the exercise of those powers.

35. Mae paragraff 1 yn diffinio "arolygydd", "pŵer mynediad" a "mangreoedd". Mae "mangreoedd", yn benodol, yn cynnwys pebyll neu strwythurau symudol, ac felly mae'n cynnwys, er enghraifft, garafanau a chartrefi symudol a gysylltir yn gyffredin â syrcasau teithiol.

36. Mae paragraff 2 yn rhoi pŵer i arolygwyr i fynd i fangreoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel anheddau ac yn nodi'r amgylchiadau pan fo'r pŵer yn arferadwy.

37. Mae paragraff 3 yn rhoi pŵer i arolygwyr fynd i anheddau. Rhaid i'r arolygydd gael gwarant gan ynad heddwch cyn arfer y pŵer hwn. Mae'r paragraff hwn yn nodi'r materion y mae rhaid eu bodloni cyn i warant gael ei rhoi. Mae paragraff 4 yn darparu bod gwarant o'r fath yn awdurdodi mynd i'r fangre ar un achlysur yn unig a bod rhaid ei defnyddio o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddwyd.

38. Mae paragraff 5 yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd, os gofynnir iddo gan unrhyw berson yn y fangre, ddangos tystiolaeth o'i fanylion adnabod cyn arfer pŵer mynediad a datgan pam y mae'r pŵer yn cael ei arfer. Os bydd arolygydd yn mynd i annedd o dan warant, rhaid iddo, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos copi o'r warant i unrhyw berson yn y fangre, a rhoi copi i'r meddiannydd neu i berson yr ymddengys ei fod yn gyfrifol am y fangre. Os nad yw'r naill na'r llall yn bresennol, rhaid i'r arolygydd adael copi o'r warant mewn man amlwg. Rhaid i'r arolygydd adael y fangre wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad anawdurdodedig ag yr oedd pan gyrhaeddodd.

39. Mae paragraff 6 yn ei gwneud yn ofynnol i arolygydd arfer pŵer mynediad ar adeg resymol oni bai bod yr arolygydd yn credu y byddai aros am yr adeg resymol honno yn llesteirio diben mynd i'r fangre honno a'i harolygu.

40. Mae paragraff 7 yn caniatáu i arolygydd ddefnyddio grym rhesymol pan fo hynny'n angenrheidiol i arfer pŵer mynediad.

41. Mae paragraff 8 yn caniatáu i arolygydd fynd â phersonau eraill gydag ef i'r fangre ac unrhyw beth sy'n angenrheidiol (gan gynnwys cyfarpar a deunyddiau) i gynorthwyo â'u dyletswyddau. Gallai'r cynorthwywyr gynnwys arbenigwyr, megis arbenigwr sŵolegol i helpu i adnabod anifeiliaid, neu gwnstabl yr heddlu.

42. Mae paragraff 9 yn nodi'r pwerau arolygu, chwilio ac ymafael sydd ar gael i arolygydd wrth arfer pŵer mynediad. Ni chaiff arolygydd ymafael mewn anifail gwyllt, ond caiff, er enghraifft, ei archwilio neu gymryd samplau. Mae paragraff 9(d) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson yn y fangre gynorthwyo'r arolygydd. Gallai arolygydd, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i berson roi mynediad i'r arolygydd i loc anifeiliaid, helpu'r arolygydd i gydio mewn anifail (er mwyn gallu cymryd samplau) neu symud cerbyd.

43. Mae paragraff 10 yn darparu y caiff unrhyw berson yr eir ag ef i'r fangre gan yr arolygydd arfer pwerau'r arolygydd o dan baragraff 9, ar yr amod ei fod o dan oruchwyliaeth yr arolygydd. Er enghraifft, gallai milfeddyg sy'n mynd gydag arolygydd, o dan oruchwyliaeth, gymryd samplau o anifail at ddibenion adnabod.

35. Paragraph 1 defines "inspector", "power of entry" and "premises". "Premises" specifically includes tents or a moveable structure and so includes, for example, caravans and mobile homes which are commonly associated with travelling circuses.

36. Paragraph 2 gives inspectors a power to enter premises which are not used wholly or mainly as dwellings and sets out the circumstances under which the power is exercisable.

37. Paragraph 3 gives inspectors a power to enter dwellings. The inspector must obtain a warrant from a Magistrate before exercising this power. This paragraph sets out the matters that must be satisfied before a warrant may be granted. Paragraph 4 provides that such a warrant authorises entry on one occasion only and must be used within 28 days beginning with the date it was issued.

38. Paragraph 5 requires an inspector, if asked by any person on the premises, to show evidence of their identity before exercising a power of entry and to state why the power is being exercised. If entering a dwelling under a warrant, the inspector must, if asked, show a copy of the warrant to any person on the premises, and provide a copy to the occupier or to a person who appears to be in charge of the premises. If neither is present, the inspector must leave a copy of the warrant in a prominent place. The inspector must leave the premises as effectively secured against unauthorised entry as they were when the inspector arrived.

39. Paragraph 6 requires an inspector to exercise a power of entry at a reasonable time unless the inspector believes that, by waiting for that reasonable time, the purpose for requiring entry and inspection may be frustrated.

40. Paragraph 7 allows an inspector to use reasonable force where necessary to exercise a power of entry.

41. Paragraph 8 allows an inspector to take on to the premises other persons and anything necessary (including equipment and materials) to assist in their duties. The assistants could include specialists, for example a zoological specialist to help identify animals, or a police constable.

42. Paragraph 9 sets out the powers of inspection, search and seizure available to an inspector when exercising a power of entry. An inspector cannot seize a wild animal, but may, for example, examine it or take samples. Paragraph 9(d) requires any person on the premises to assist the inspector. An inspector could, for example, require a person to give the inspector access to an animal enclosure, help the inspector handle an animal (to be able to take samples) or move a vehicle.

43. Paragraph 10 provides that any person brought onto the premises by the inspector is able to exercise the inspector's powers under paragraph 9, provided that they are under the inspector's supervision. For example, a veterinary surgeon accompanying an inspector could, under supervision, take samples from an animal for identification purposes.

44. Mae paragraff 11 yn gwneud darpariaeth ychwanegol ynghylch y pŵer ymafael. Caniateir cadw unrhyw eitem yr ymafaelir ynddi o dan baragraff 9(k) am gyhyd ag y bo angen. Mae paragraff 11(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r arolygydd neu gynorthwyydd yr arolygydd gadw cofnod o'r eitem yr ymafaelir ynddi, ac os gofynnir iddo wneud hynny, ddarparu cofnod o'r eitem yr ymafaelwyd ynddi i'r person a oedd yn meddiannu'r fangre ar yr adeg yr ymafaelwyd yn yr eitem, neu'r person a oedd â'r eitem yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth yn union cyn yr ymafaelwyd ynddi. Nid yw paragraff 11(3) yn caniatáu ymafael mewn eitemau a allai fod yn ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol, megis dogfennau sy'n cynnwys cyngor gan weithwyr proffesiynol cyfreithiol.

45. Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n methu â chydymffurfio â chais am gymorth neu os yw'n fwriadol yn rhwystro arolygydd wrth iddo arfer ei ddyletswyddau (paragraff 12). Gellir rhoi trosedd o dan y paragraff hwn ar brawf yn Llys yr Ynadon a chaiff y Llys osod dirwy ddiderfyn os ceir person yn euog.

46. Mae paragraff 13 yn diogelu arolygwyr ac unrhyw berson y mae arolygydd yn mynd ag ef i fangre rhag bod yn atebol mewn unrhyw achos sifil a throseddol am unrhyw beth a wneir neu am unrhyw beth na wneir o ganlyniad i gyflawni eu dyletswyddau. Nid yw'r esemptiad hwn rhag atebolrwydd yn gymwys pan fo'r arolygydd neu'r person sydd o dan oruchwyliaeth yr arolygydd yn ymddwyn mewn modd nad yw'n ddidwyll neu os nad oedd seiliau rhesymol dros weithredu yn y fath fodd.

## COFNOD Y TRAFODION YN Y SENEDD

47. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar: **https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25643**

| **Cyfnod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 8 Gorffennaf 2019 |
| Cyfnod 1 – Dadl | 7 Ionawr 2020 |
| Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | 5 Chwefror 2020 |
| Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau | 8 Gorffennaf 2020 |
| Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Senedd | 15 Gorffennaf 2020 |
| Y Cydsyniad Brenhinol | 7 Medi 2020 |

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

44. Paragraph 11 makes additional provision about the power of seizure. Any item seized under paragraph 9(k) can be retained as long as is necessary. Paragraph 11(2) requires the inspector or an assistant of the inspector to keep a record of the item seized and, on request, to provide a record of the item seized to the person who occupied the premises at the time it was seized, or the person who had possession or control of the item immediately before it was seized. Paragraph 11(3) does not allow the seizure of items which could be subject to legal professional privilege, for example, documents containing advice from legal professionals.

45. A person commits an offence if they fail to comply with a request for assistance or intentionally obstruct an inspector when the inspector is carrying out their duties (paragraph 12). An offence under this paragraph is triable in the Magistrates' Court and the Court may impose an unlimited fine if a person is found guilty.

46. Paragraph 13 protects inspectors and any person taken onto premises by an inspector from liability in any civil and criminal proceedings for anything done or not done as a result of carrying out their duties. This exemption from liability does not apply where an inspector or the person under the supervision of the inspector acts in bad faith or if there were no reasonable grounds to act in such manner.

## RECORD OF PROCEEDINGS IN THE SENEDD

47. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the Senedd website at: **https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25643**

| **Stage** | **Date** |
|---|---|
| Introduced | 8 July 2019 |
| Stage 1 - Debate | 7 January 2020 |
| Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments | 5 February 2020 |
| Stage 3 Plenary - consideration of amendments | 8 July 2020 |
| Stage 4 Approved by the Senedd | 15 July 2020 |
| Royal Assent | 7 September 2020 |

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), part of Williams Lea, ac ar gael o:

**Arlein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
Archebion ffacs: 0333 202 5080
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

**TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea, and available from:

**Online**
**www.tsoshop.co.uk**

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
Fax orders: 0333 202 5080
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

**TSO@Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-12012-7

9 780348 120127